

Meini Prawf Ariannu:

Cronfa Gwydnwch Coronafirws Cymru

Mae'r Gronfa yma'n cefnogi Cymru a bydd yn dosbarthu cyllid a godir o'n Cronfa Gwydnwch Coronafirws Cymru ac apêl yr Ymddiriedolaeth Argyfyngau Genedlaethol.

Mae'r gronfa hon wedi cael ei sefydlu i gynorthwyo grwpiau a sefydliadau sy'n addasu gwasanaethau a chymorth i unigolion a theuluoedd, boed yn unigol neu ar y cyd, wedi'u heffeithio gan bandemig y coronafeirws.

Yn bennaf, byddwn yn darparu cymorth ar gyfer y canlynol (Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr):

- gweithgareddau sy'n helpu pobl sy'n agored i niwed sy'n hunanynysu (yr henoed, pobl â chyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes ac ati)
- Anghenion parhaus pobl sy'n agored i niwed i sicrhau bod eu hiechyd a'u lles yn cael eu cynnal
- cymorth i fanciau bwyd a sefydliadau sy'n gweithio i frwydro yn erbyn caledi a achosir gan y pandemig, gan gynnwys newyn plant
- cydgysylltu ymateb cymunedol
- costau gwirfoddolwyr i'r rhai sy'n ymateb i effeithiau'r pandemig
- costau ychwanegol gweithio o bell ac addasu gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned ehangach
- Cymorth ychwanegol yn ôl yr angen ar gyfer anghenion emosiynol ac iechyd meddwl a chymorth profedigaeth

Sylwch mai dim ond am 6 mis y byddwn yn ystyried cost cyflwyno'r gwasanaeth / cefnogaeth i ddechrau. Byddwch yn gallu ail-ymgeisio am gyllid pellach os yw'r angen yn dal i fodoli ar ôl Medi 2020.

Os bydd arian yn caniatáu, byddwn yn darparu cymorth i:

- atal colli incwm contractau a chodi arian ar gyfer sefydliadau sy'n rhoi cymorth i grwpiau sy'n agored i niwed

Sylwch fod ceisiadau sy'n gwneud cais am grant i lenwi'r gap o incwm rydych wedi'i golli yn cael eu roi ar restr wrth gefn ar hyn o bryd a byddwn yn eu hail-ystyried ym mis Gorffennaf pan fydd gennym well syniad o faint o arian sydd gennym i ddosbarthu. Byddwn yn annhebygol o gynnig cyllid i sefydliadau sydd gyda'g cronfeydd wrth gefn sydd dros 6 mis o gostau rhedeg y sefydliad.

Rhoddir blaenoriaeth i:

- Sefydliadau llawr gwlad sy'n gweithio o fewn eu cymuned leol
- grwpiau sy'n gweithio yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru
- grwpiau sy'n cefnogi anghenion parhaus pobl ddiamddiffyn y mae'r pandemig coronaidd yn effeithio arnynt

Grantiau sydd Ar Gael

- Mae grantiau o hyd at £5,000 ar gael i grwpiau sydd ag incwm blynyddol o hyd at £200,000
- Mae grantiau o hyd at £10,000 ar gael i grwpiau sydd ag incwm blynyddol rhwng £200,001 a £500,000

Pwy a all ymgeisio?

- Elusennau, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol a fu'n cynnal gweithgareddau i gefnogi'r gymuned drwy effaith pandemig Coronafirus yng Nghymru.
- Fyddem ond yn cefnogi grwpiau a sefydliadau a all ddangos tystiolaeth eu bod yn gweithio'n ddiogel ac yn cadw a ganllawiau'r Llywodraeth ynglŷn â'r firws.

Yr hyn na all y gronfa ei gynnal:

- Unigolion
- Busnesau
- Sefydliadau sydd â mwy na 6 mis o gostau rhedeg mewn cronfeydd wrth gefn.

Mae'r Llywodraeth yn gwneud darpariaeth ar gyfer cymorth i unigolion a busnesau.

Sut i ymgeisio?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais y gellir cael mynediad ati drwy ein gwefan.

Cofiwch:

- Ni roddir grantiau yn ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau a wariwyd eisoes cyn derbyn y llythyr cynnig grant a'r telerau ac amodau a lofnodwyd
- Ni chefnogir prosiectau sydd yn dod o dan gyfrifoldeb y sector statudol e.e. unrhyw beth sy'n dod o fewn y cwricwlwm ysgol